



Cardiff Students' Union  
Undeb Myfyrwyr Caerdydd

## Swyddog Myfyrwyr Aeddfed

### Y Rôl:

Mae'r Swyddog Myfyrwyr Aeddfed yn cynrychioli buddiannau myfyrwyr hŷn. Mae'n rôl wirfoddol a bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn cyflawni'r rôl ochr yn ochr â'i astudiaethau. Bydd pob Swyddog etholedig yn cael hyfforddiant a chefnogaeth i gyflawni eu rôl, felly nid oes angen unrhyw brofiad blaenorol.

Bydd y Swyddog Myfyrwyr Aeddfed yn:

- Cynrychioli myfyrwyr aeddfed
- Codi ymwybyddiaeth a hyrwyddo buddiannau'r myfyrwyr y maent yn eu cynrychioli
- Lobio am newid ar draws y brifysgol
- Cynllunio a rhedeg ymgyrchoedd
- Mynychu cyfarfodydd Undeb y Myfyrwyr a chysylltu'n rheolaidd â staff allweddol

Sgiliau y byddwch yn eu datblygu:	Cyfleoedd a buddion:
<ul style="list-style-type: none"><li>• Arweinyddiaeth</li><li>• Cyfathrebu</li><li>• Sgiliau trefniadol</li><li>• Sgiliau gwranddo a rhyngpersonol</li><li>• Lobio</li><li>• Gwaith tîm</li><li>• Profiad cynllunio prosiectau</li><li>• Cynllunio a gweithredu ymgyrchoedd</li></ul>	<ul style="list-style-type: none"><li>• Hyfforddiant mewnol gan yr UM</li><li>• Cefnogaeth a mentora gan staff yr UM</li><li>• Rhywbeth gwych i roi ar eich CV</li><li>• Cyfarfod pobl newydd</li><li>• Dod i ymwneud mwy a'r UM</li><li>• Cyfle i wneud gwahaniaeth gwirioneddol i brofiad myfyrwyr.</li></ul>

### Cymhwysedd:

Os ydych yn fyfyrwr ym Mhrifysgol Caerdydd, mae hawl gennych sefyll yn etholiadau Undeb y Myfyrwyr. Mae hyn yn cynnwys israddedigion yn ogystal â phob myfyrwr rhan-amser, myfyrwyr aeddfed, myfyrwyr ôl-raddedig ac ymchwil, a myfyrwyr rhyngwladol.

**Enwebwch eich hun:** [cardiffstudents.com/elections](http://cardiffstudents.com/elections)

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â'r Tîm Etholiadau ar [etholiadau@cardiff.ac.uk](mailto:etholiadau@cardiff.ac.uk).



The heart of Cardiff student life  
Calon bywyd myfyrwyr Caerdydd